TextAid by ReadSpeaker

TextAid gan ReadSpeaker

Pa fyfyrwyr fyddai’n cael budd o ddefnyddio TextAid?

Bydd myfyrwyr sy'n cael anhawster i ddarllen a deall testun ac sydd â chyflyrau meddygol sy'n achosi gorflinder a methu canolbwyntio yn gallu astudio’n llawer mwy hwylus wrth ddefnyddio TextAid. Mae'r offer yn helpu gyda darllen, sillafu, deall, cof gweithio a chanolbwyntio.

Pa wahaniaeth fydd yn gwneud?

Gwella dealltwriaeth

Mae gallu gwrando a gweld geiriau'n cael eu hamlygu yn atgyfnerthu ystyr. Does dim angen dadgodio geiriau unigol. Mae anodi dogfennau yn eich helpu i ddeall y testun.

Byddwch yn gwella'ch hunanhyder ac yn gweithio'n fwy effeithlon



Pan fod dim angen darllen, rydych yn gweithio'n fwy cyflym. Pan fod eich gwaith yn cael ei brawf-ddarllen, gallwch fod yn sicr eich bod wedi ysgrifennu beth oeddech yn bwriadu ei ysgrifennu, a gyda llai o wallau.

Lleihau gorflinder a straen

Wrth ysgrifennu mae'n rhaid i chi feddwl am gynnwys, strwythuro brawddegau, dod o hyd i'r gair cywir, atalnodi a sillafu, sy'n flinedig iawn os ydych chi’n ddyslecsig neu mae gennych gyflwr sy'n achosi gorflinder. Mae'r offer yn TextAid yn helpu gyda hyn drwy ddarllen drosoch, awgrymu geiriau, gwirio sillafu a fformatio eich gwaith fel y bydd yn haws ei ddarllen.

Mae'n rhoi'r rhyddid i chi ddewis pryd, ble a beth fyddwch yn darllen

Gan fod TextAid ar y we, gallwch gyrchu eich cyfrif ar unrhyw ddyfais. Mae’n gallu ddarllen unrhyw destun, hyd yn oed ar ddarn o bapur neu lun. Gallwch ychwanegu anodiadau i helpu'ch dealltwriaeth a gallwch wrando ar y sain heb edrych ar sgrin.

Gwella eich symbyliad i ddarllen mwy

Mae TextAid yn gwneud y gwaith darllen drosoch a thrwy ddileu'r rhwystr hwn i ddysgu, mae'n eich symbylu a’ch helpu i ddeall yn well.

Aventido

www.aventido.com/textaid
mary.wilcox@aventido.com

TextAid by ReadSpeaker

Text Aid gan ReadSpeaker

Sut ydych chi'n defnyddio TextAid?

Mae TextAid yn gymorth ar-lein. Mae hyn yn golygu y gall myfyrwyr ei gyrchu ar unrhyw ddyfais. Does dim angen lawrlwytho unrhyw beth, gwirio am ddiweddariadau neu boeni am nad yw eich gliniadur yn un manyleb uchel.



- Gwrandewch ar unrhyw destun yn cael ei ddarllen yn uchel gyda llais naturiol a gydag amlygu.
- Mae'r holl ddogfennau'n cael eu harbed yn eich Llyfrgell felly does dim angen cofio'u harbed.
- Arbedwch ar ffurf ffeil sain fel y gallwch wrando yn unrhywle.
- Defnyddiwch y riwler darllen a'r masgiwr sgrin i'ch helpu i ddilyn y testun.
- Ychwanegwch nodiadau post-it, testun, siapiau ac amlygu i'ch helpu i ddeall y testun.
- Echdynnwch wybodaeth allweddol ar gyfer adolygu a chrynhoi dogfennau hir.
- Cymorth gyda sillafu a deall geirfa gyda rhagfynegi geiriau, gwirio sillafu a chwilio am eiriau.
- Cyfieithwch destun i iaith arall.
- Gwrandewch ar destun mewn delwedd ac ar wefannau, hyd yn oed wrth ddefnyddio eich ffôn.

Aventido

www.aventido.com/textaid
mary.wilcox@aventido.com